Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Hywel Samuel and Associates

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 30 Ionawr 2023

Dyddiad cyhoeddi: 02 Mai 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80535-927-2

© Hawlfraint y Goron 2023

## Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

### Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

### Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

### Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

### Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom .......... 5

2. Crynodeb o'r arolygiad .......... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym .......... 8

- Ansawdd Profiad y Claf .......... 8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 12
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 16

4. Y camau nesaf .......... 17

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .......... 18

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .......... 19

Atodiad C – Cynllun gwella .......... 21

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Hywel Samuel and Associates, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 30 Ionawr 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 19 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Roedd yn amlwg bod y staff yn Hywel Samuel and Associates yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion pan fyddant yn ymweld â'r practis. Roedd yn amlwg bod camau yn cael eu cymryd i gynnal urddas a chyfrinachedd y cleifion yn ystod apwyntiadau. Roedd y practis hefyd yn gwbl hygyrch, gyda phob ystafell glinig ar y llawr gwaelod a thoiled hygyrch i gleifion.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r wybodaeth i gleifion fod ar gael yn ddwyieithog yn y dderbynfa ac ardaloedd aros y practis.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cynnal cyfrinachedd y cleifion drwy sicrhau bod drysau'r deintyddfeydd bob amser ar gau yn ystod apwyntiadau.
- Roedd llawer o wybodaeth i gleifion i'w gweld yn yr ystafell aros ac ardal y dderbynfa.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom dystiolaeth fod polisïau a gweithdrefnau amrywiol ar waith yn y lleoliad i reoli heintiau. Roedd pob un ohonynt yn gyfredol ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Roedd hyfforddiant gorfodol i'r holl staff, a oedd yn cynnwys rheoli heintiau a diogelwch tân, hefyd yn gyfredol.

Roedd hi'n glir bod yr adeilad mewn cyflwr da, y tu mewn a'r tu allan. Roedd yr ardaloedd clinigol a chymunedol yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r staff gynnal archwiliadau mewn perthynas â rhoi'r gorau i smygu a gwrthfiotigau cyn gynted â phosibl.
- Rydym yn argymell y dylid ychwanegu opsiwn ticio blychau at gofnodion y cleifion er mwyn gallu nodi'r cleifion sy'n smygu yn hawdd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben. Roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.
- Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Roedd gan y practis bolisïau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu trin, eu cofnodi a'u dosbarthu'n ddiogel ac yn effeithiol.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir ar waith yn Hywel Samuel and Associates.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf. Gwelsom dystiolaeth hefyd o gyfarfodydd staff rheolaidd ac arfarniadau blynyddol i'r holl staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mae cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal ac mae cofnodion manwl ar gyfer y cyfarfodydd hynny.
- Roedd cofrestr gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith yn y practis. Roedd y rhain i gyd yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan reolwr y practis.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

# Ansawdd Profiad y Claf

## Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 19 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers mwy na dwy flynedd.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

> ***"Mae'n dda iawn wir, rydyn ni wedi bod yn ei ddefnyddio fel teulu ... ers ... blynyddoedd. Mae'r practis cystal ag unrhyw ddeintyddfa."***
>
> ***"Mae symud o'r hen adeilad i'r adeilad newydd hwn wedi sicrhau gwelliant cyffredinol."***

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

> ***"Yr ardal barcio"***

## Cadw'n Iach

**Diogelu a Gwella Iechyd**
Gwelsom dystiolaeth o newidiadau yn y practis o ganlyniad i bandemig COVID-19. Roedd arwyddion i'w gweld o hyd yn ardaloedd cymunedol y practis yn annog y cleifion i wisgo gorchudd wyneb a gofynnir i'r cleifion dros y ffôn a oes ganddynt unrhyw symptomau o haint anadlol cyn eu hapwyntiad.

Roedd gorsafoedd diheintio dwylo ym mhob rhan o'r practis hefyd.

Dywedodd pob un o'r 19 o gleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Cadarnhaodd 18 o'r ymatebwyr hefyd fod y tîm deintyddol yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Nid ymatebodd un o'r cleifion.

Roedd enw'r practis i'w weld yn amlwg y tu allan i'r lleoliad, yn ogystal â gwybodaeth am oriau agor y practis a manylion cyswllt mewn argyfwng. Gwelsom hefyd fod rhestr gyfredol o'r staff deintyddol i'w gweld yn glir yn ardal derbynfa'r practis.

## Gofal ag urddas

**Cyfathrebu'n effeithiol**

Roedd yn amlwg bod y staff yn Hywel Samuel and Associates yn ymrwymedig i gynnal preifatrwydd a chyfrinachedd y cleifion. Gwelsom fod drysau pob ystafell glinig yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau ac roedd y gwydr arlliwedig a oedd o amgylch pob ystafell yn atal unrhyw un rhag gallu gweld i mewn.

Dywedodd y staff wrthym nad oed unrhyw alwadau ffôn yn cael eu hateb wrth brif ddesg y dderbynfa, a'u bod yn ymdrin â nhw mewn ystafell ar wahân, i ffwrdd o ardaloedd cymunedol y practis. Roedd yr ardal aros hefyd mewn ystafell ar wahân oddi wrth ddesg y dderbynfa, gan roi preifatrwydd ychwanegol i'r cleifion sy'n siarad â'r staff. Dywedodd rheolwr y practis wrthym pe bai claf yn dymuno siarad ag aelod o'r staff yn breifat, y byddent naill ai'n defnyddio swyddfa rheolwr y practis neu ystafell glinig wag.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod pump aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio yn y practis a gwelsom eu bod yn gwisgo bathodynnau 'Iaith Gwaith'. Mae gwefan y practis yn ddwyieithog a gwelsom dystiolaeth o farcwyr ar gofnodion y cleifion sy'n siarad Cymraeg.

Dywedodd y staff wrthym fod gwasanaeth cyfieithu ar gael i'r practis drwy'r bwrdd iechyd. Fodd bynnag, gall fod yn anodd ei ddefnyddio oherwydd y nifer eang o ieithoedd y mae cleifion y practis yn eu siarad. Dywedwyd wrthym fod y cleifion y mae angen gwasanaeth cyfieithu arnynt yn cael eu hannog i fynychu apwyntiadau gyda chyfieithydd neu i ddefnyddio ap cyfieithu ar ffôn symudol yn ystod eu hapwyntiad. Yn ôl rheolwr y practis, mae'r ddau ddull hyn yn effeithiol.

Gwelsom fod y 9 Egwyddor, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn cael eu harddangos yn y ddwy ystafell aros.

**Yr hyn sydd angen ei wella**

Rhaid i'r practis sicrhau bod gwybodaeth ddwyieithog ar gael.

**Gwybodaeth i gleifion**

Gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth i gleifion wedi'i harddangos yn y ddwy ardal aros ac yn ardal derbynfa'r practis. Roedd y practis hefyd yn darparu gwybodaeth berthnasol ar ei wefan. Roedd y wybodaeth yn cynnwys gweithdrefn gwyno'r practis, rhestr prisiau cynhwysfawr ar gyfer triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat a thaflenni hybu iechyd amrywiol.

Cadarnhaodd adolygiad o'r daflen wybodaeth i gleifion ei bod yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

## Gofal amserol

**Mynediad amserol**

Gwnaethom ofyn i reolwr y practis sut y caiff cleifion eu hysbysu am unrhyw oedi mewn perthynas ag amseroedd aros ar gyfer eu hapwyntiadau. Dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn cysylltu â chleifion cyn eu hapwyntiad os yn bosibl neu, fel arall, y byddant yn siarad â nhw wyneb yn wyneb pan fyddant yn cyrraedd y practis. Byddai'r staff yn hysbysu'r cleifion am hyd tebygol yr oedi ac yn rhoi'r cyfle iddynt aildrefnu eu hapwyntiad os na allant aros.

Dywedodd y staff wrthym y gellir trefnu apwyntiadau dros y ffôn ac wyneb yn wyneb yn y practis. Gwelsom hefyd opsiwn i gofrestru drwy lenwi ffurflen ar wefan y practis er mwyn i'r lleoliad eu ffonio yn ôl i drefnu apwyntiad.

O'r 19 o gleifion a gwblhaodd holiaduron, nododd 11 ohonynt eu bod yn ei chael hi'n ‘hawdd iawn’ trefnu apwyntiad pan oedd ei angen arnynt a nododd wyth eu bod yn ei chael hi'n ‘eithaf hawdd’.

Dywedodd y staff wrthym am y broses y mae angen i'r cleifion ei dilyn i gael apwyntiadau brys. Dywedwyd wrthym fod llinellau ffôn y practis ar agor rhwng 8:00am a 8:30am er mwyn brysbennu apwyntiadau brys yn unig. Caiff tua dau slot fesul deintydd eu cadw bob dydd ar gyfer achosion brys a bydd y staff hefyd yn defnyddio slotiau a gaiff eu canslo os bydd angen.

## Gofal unigol

**Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Dywedodd 17 o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron eu bod wedi cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth. Nid ymatebodd dau glaf.

Dywedodd 15 allan o'r 19 o gleifion a atebodd wrthym eu bod yn teimlo y gallant gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir (ni waeth eu hoedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol). Nododd 16 o'r cleifion a atebodd nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth hwn neu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth hwn. Ni chafwyd ymateb i'r ddau gwestiwn hwn gan y cleifion eraill.

### Hawliau pobl

Gwnaethom adolygu'r polisïau yn y practis a chadarnhawyd bod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cynhwysfawr ar waith. Roedd y polisïau yn cael eu hadolygu bob blwyddyn, a oedd yn amlwg o'r dyddiadau adolygu clir ar y dogfennau.

Dywedodd y staff wrthym fod gwefan y practis yn nodi ei fod yn lleoliad sy'n gyfeillgar i bobl LHDTC+. Dywedodd rheolwr y practis wrthym hefyd ei fod wrthi'n ychwanegu opsiwn i gofnodion y cleifion i gynnwys rhagenwau a ffefrir.

Mae Hywel Samuel and Associates wedi'i leoli mewn lleoliad pwrpasol, sy'n cynnig mynediad llawn i gleifion anabl. Mae desg y dderbynfa, yr ardal aros a phob deintyddfa ar y llawr gwaelod ac mae toiled ar gael i bobl anabl.

### Gwrando a dysgu o adborth

Roedd y broses gwyno wedi'i harddangos yn yr ardal aros. Roedd y wybodaeth am gwyno yn cynnwys y broses y mae angen ei dilyn, y terfynau amser ar gyfer ymateb, a manylion yr aelod o'r staff sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion.

Roedd y cleifion yn cael eu hannog i roi adborth ar-lein a thrwy dudalennau cyfryngau cymdeithasol y practis. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod holiaduron papur yn cael eu cwblhau gan gleifion a bod blwch sylwadau ar ddesg y dderbynfa.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Gofal diogel

**Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Roedd y practis mewn cyflwr da yn fewnol ac yn allanol. Roedd pob ardal o'r practis yn lân ac yn daclus. Nododd pob un o'r 19 o gleifion a ymatebodd i'r holiadur eu bod o'r farn bod y practis deintyddol yn 'lân iawn'.

Cafodd y lleoliad ei adeiladu'n bwrpasol ddwy flynedd yn ôl ac roedd yn cynnig mynediad llawn i bobl anabl, gydag ystafelloedd clinig mawr a digon o gyfleusterau newid a storio. Gwnaethom archwilio sampl o gyfleusterau clinigol yn y lleoliad. Roedd yr holl gyfarpar deintyddol mewn cyflwr da a gwelsom dystiolaeth fod digon o eitemau ar gael er mwyn gallu eu dihalogi'n effeithiol ar ôl eu defnyddio.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Nodwyd gennym hefyd fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant tân. Mae arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân i'w gweld yn glir yn y practis, ac mae arwydd 'dim smygu' yn ardal y dderbynfa.

Gwelsom dystiolaeth fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith yn y practis, yn ogystal ag amrywiaeth o asesiadau risg. Roedd hyn yn cynnwys asesiad risg diogelwch tân, asesiad risg amgylcheddol ac asesiad risg iechyd a diogelwch. Roedd pob un yn gyfredol ac yn cael ei adolygu o fewn terfynau amser priodol.

Roedd gan y practis gynllun parhad busnes cynhwysfawr ar waith. Roedd y cynllun hwn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd a gwelsom dystiolaeth fod adolygiadau blynyddol yn cael eu cynnal.

**Atal a rheoli heintiau**

Roedd gan y practis gyfleusterau penodol ar gyfer dihalogi offer deintyddol yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Gwelsom hefyd nifer o bolisïau ar waith o ran gweithdrefnau atal a rheoli heintiau'r practis.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant rheoli heintiau gorfodol.

Roedd trefniadau priodol ar waith hefyd gan y practis ar gyfer ymdrin â gwastraff a'i waredu. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gwastraff clinigol yn cael ei storio a'i wahanu mewn ffordd ddiogel a phriodol.

Gwelsom fod amserlenni glanhau effeithiol ar waith yn y practis a bod cyfleusterau hylendid dwylo ar gael i'r cleifion a'r staff. Gwelsom dystiolaeth fod arweinydd rheoli heintiau dynodedig yn y practis.

**Rheoli meddyginiaethau**

Gwelsom dystiolaeth fod polisi rheoli meddyginiaethau cynhwysfawr ar waith yn y practis. Roedd nifer o weithdrefnau a threfniadau ategol ar waith yn y practis hefyd er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu trin, eu cofnodi a'u dosbarthu'n ddiogel ac yn effeithiol.

Gwnaethom edrych ar y cyffuriau a'r cyfarpar brys a oedd ar gael yn y practis. Roedd yr holl gyffuriau a'r cyfarpar dadebru yn gyfredol ac yn cydymffurfio â'r canllawiau lleol. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod archwiliadau cynnal a chadw blynyddol yn cael eu cynnal ar silindrau ocsigen.

Hefyd, wrth adolygu cofnodion hyfforddiant y staff, gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR) cyfredol.

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg**

Gwelsom dystiolaeth o dystysgrifau hyfforddiant diogelu cyfredol ar gyfer pob aelod o'r staff. Roedd polisi diogelu cynhwysfawr ar waith yn y practis hefyd a oedd yn cynnwys manylion cyswllt lleol ar gyfer rhoi gwybod am bryderon. Roedd y staff yn gallu cael gafael ar gopi o Weithdrefnau Cymru Gyfan er mwyn cyfeirio atynt pe byddai angen.

Disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau geirdaon a / neu gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cadarnhawyd gennym fod gan bob aelod perthnasol o'r staff wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Cadarnhawyd gennym hefyd fod pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

**Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**

Roedd y cyfleusterau clinigol yn cynnwys yr holl gyfarpar perthnasol, a gwelsom fod y deintyddfeydd yn drefnus iawn, yn lân ac yn daclus. Gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau hyfforddiant y staff fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant i sicrhau ei fod yn defnyddio cyfarpar yn ddiogel.

## Gofal effeithiol

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd yn amlwg o'n canfyddiadau bod trefniadau cadarn ar waith yn y practis i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y manylion hyn wedi'u dogfennu yn y datganiad o ddiben ac mewn polisïau a gweithdrefnau.

**Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

Gwnaethom siarad â'r staff am y systemau sydd ar waith ar gyfer monitro'r broses o wella ansawdd. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod adborth o holiaduron yn cael ei drafod yn ystod cyfarfodydd tîm a bod camau yn cael eu cymryd i ymateb i'r adborth os oes angen. Hefyd, dywedwyd wrthym fod rheolwr y practis yn cael neges e-bost pan fydd unigolyn yn cyflwyno adolygiad ar-lein, a'i fod yn ymateb i bob un yn unigol.

Cyflwynodd y staff dystiolaeth i ni hefyd i ddangos bod y practis yn cwblhau adroddiadau blynyddol yr Hunanasesiad Sicrwydd Ansawdd (QAS).

Gwnaethom adolygu nifer o'r archwiliadau a gynhaliwyd. Dangosodd ein hadolygiad nad oedd y staff wedi cwblhau archwiliad rhoi'r gorau i smygu nac archwiliad gwrthfiotigau ar gyfer y practis eto. Gwnaethom godi hyn gyda'r staff a gofyn iddynt gwblhau'r archwiliadau hyn cyn gynted â phosibl.

**Yr hyn sydd angen ei wella**

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr archwiliad rhoi'r gorau i smygu a'r archwiliad gwrthfiotigau yn cael eu cynnal.

**Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Roedd polisi diogelu data a pholisi cyfrinachedd staff ar waith yn y practis. Roedd cofnodion cleifion cyfredol yn cael eu storio'n electronig ac yn ddiogel. Er bod pob un o'r cofnodion a welsom yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth berthnasol, nodwyd gennym nad oedd ffordd hawdd o nodi cleifion a oedd yn smygu o edrych ar eu cofnodion. Gwnaethom grybwyll hyn i'r staff, gan argymell y dylid ychwanegu opsiwn ticio blwch er mwyn gallu nodi'r wybodaeth hon yn hawdd.

**Yr hyn sydd angen ei wella**

Rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion y cleifion yn dangos p'un a yw claf yn smygu ai peidio.

**Cadw cofnodion**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf, yr oedd pob un ohonynt wedi'u cynnal i safon dda. Gwelsom dystiolaeth fod polisi rheoli cofnodion priodol ar waith yn ogystal â system sy'n sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu rheoli'n ddiogel. Er bod pob un o'r cofnodion yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth berthnasol am gleifion, gwnaethom sylwi nad oedd ffordd hawdd o nodi pa gleifion oedd yn smygu. Gwnaethom siarad â'r staff am hyn, gan argymell y dylid ychwanegu opsiwn ticio blwch i gofnodion y cleifion er mwyn nodi a yw pob claf yn smygu ai peidio.

Roedd polisi cydsynio cynhwysfawr ar waith yn y practis hefyd.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd**
Roedd tystiolaeth o arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir ar waith yn y practis. Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, a oedd yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'w rôl.

Gwnaethom edrych ar y datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion. Roedd y ddwy ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd yn amlwg bod y practis yn cadw cofrestr gyfredol a manwl o bolisïau a gweithdrefnau. Gwelsom dystiolaeth fod pob un ohonynt yn cael eu hadolygu bob blwyddyn gan reolwr y practis.

Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal yn y practis a bod cofnodion manwl yn cael eu cymryd. Caiff y rhain eu storio ar ffeil er mwyn gallu cyfeirio atynt pe bai angen i aelod o'r staff fwrw golwg drostynt.

**Y Gweithlu**
Gwnaethom adolygu'r polisïau a oedd yn amlinellu'r broses a ddefnyddir i recriwtio aelodau newydd o staff ac i gefnogi'r broses o gyflogi a sefydlu staff. Dywedodd rheolwr y practis wrthym am y broses sefydlu ar gyfer staff newydd, a oedd yn cynnwys darllen polisïau'r practis a chwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol.

Rhoddodd rheolwr y practis ffeiliau'r staff i ni fwrw golwg drostynt. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac roedd tystiolaeth o frechiadau Hepatitis B a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ffeil pob aelod o'r staff a chofnodion o arfarniadau blynyddol.

Roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban cynhwysfawr ar waith. Roedd y polisi hwn yn gyfredol ac yn cael ei adolygu bob blwyddyn ynghyd â pholisïau eraill y practis.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd.
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru.
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol** | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Hywel Samuel and Associates

**Dyddiad yr arolygiad:** 30/01/2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol** | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth: Hywel Samuel and Associates**

**Dyddiad yr arolygiad: 30/01/2023**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i'r practis sicrhau bod dogfennau fel y polisi cwynion, y daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben ar gael yn ddwyieithog yn ardal aros y practis. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13 (1)(a)<br><br>Safonau Iechyd a Gofal - 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol | Mae rheolwr y practis eisoes wedi gweithredu yn hyn o beth. Rydym wedi cyfieithu'r dogfennau hyn i saith iaith wahanol, sef yr ieithoedd a ddefnyddir fwyaf gan ddefnyddwyr ein gwasanaeth. Fe'u cyfieithwyd i'r Gymraeg, Arabeg, Wrdw, Bengaleg, Gwjarati, Somalieg a Wcreineg. Rydym wedi nodi ar ein hysbysfwrdd y gall cleifion ofyn am y dogfennau hyn yn eu dewis iaith os byddant am wneud hynny. Mae pob aelod o'r staff yn | Yasmin Begum<br><br>Rheolwr y Practis | Gweithredwyd 08.02.2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ymwybodol o hyn a byddant yn rhoi'r dogfennau hyn i'r cleifion ar gais. Os nad yw'r ddogfen ar gael wedi'i chyfieithu i ddewis iaith y claf, gallwn drefnu hynny o fewn saith diwrnod gwaith, a byddwn yn hysbysu'r claf am y broses hon. | | |
| **Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cwblhau archwiliad rhoi'r gorau i smygu ac archwiliad gwrthfiotigau cyn gynted â phosibl** | Safonau Iechyd a Gofal – 3.5 Cadw cofnodion | Dechreuwyd yr Archwiliad Gwrthfiotigau ym mis Rhagfyr 2022 gan dri Chlinigydd ac un gweithiwr gofal deintyddol proffesiynol.<br><br>Wedi ei ddechrau ym mis Ionawr 2023.<br><br>Cwblhawyd yr archwiliad dros gyfnod o dri mis ac rydym wrthi'n coladu'r data i'w hanfon at Addysg a Gwella Iechyd Cymru.<br><br>Rydym wrthi'n gweithio ar system gofrestru ar gyfer yr Archwiliad Rhoi'r Gorau i Smygu. | Yasmin Begum, Rheolwr y Practis / Tracey Morris, ICL | Gweithredwyd 16.03.2023<br><br>Bwriedir ei ddechrau ym mis Ebrill 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhaid i'r practis sicrhau y caiff opsiwn ticio blychau ei ychwanegu at gofnodion y cleifion er mwyn gallu nodi'r cleifion sy'n smygu yn hawdd** | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 16 (1) (a)<br><br>Safonau Iechyd a Gofal - 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesedd a 3.5 Cadw cofnodion | Rydym eisoes wedi ychwanegu cwestiwn ar yr adran hanes meddygol ar R4 i ofyn a yw claf yn smygu. Rydym hefyd wedi ychwanegu marciwr ar gofnodion y cleifion i nodi os ydynt yn smygu. | Yasmin Begum, Rheolwr y Practis | Gweithredwyd 16.03.2023 |
| | | | | |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth YBegum**

**Enw (priflythrennau):** **Yasmin Begum**

**Teitl swydd:** **Rheolwr y Practis**

**Dyddiad:** **20.03.2023**